# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | LYNDA JAMES | Adran Etholiadol: | PENNARD |
|---|---|---|---|

**Adran 1:** Gweithgareddau yn yr etholaeth

Ymdriniais â nifer o broblemau megis gwasanaethau bws, tyllau yn y ffordd, llyncdyllau, casgliadau sbwriel, sbwriel a llifogydd. Hefyd, darperais gyngor a chefnogaeth ar nifer o faterion unigol a throsglwyddo cyfeiriadau ar amrywiaeth eang o bynciau. Rwyf bob amser ar gael gartref, dros y ffôn neu drwy e-bost, a byddaf yn ymweld ag etholwyr yn eu cartrefi os yw'n fwy cyfleus iddynt.

**Cymorthfeydd misol** – Cynhaliais gymorthfeydd bob mis yn Llyfrgell Pennard a Marchnad Cynnyrch Pennard.

**Cynllunio** – Adolygais yr holl geisiadau cynllunio ar gyfer y ward ac ymwelais â'r rhan fwyaf o'r safleoedd. Tynnais sylw at geisiadau dadeuol a'u hanfon ymlaen at y pwyllgor, gan gysylltu â swyddogion pan fu'n rhaid.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 9 | / | 11 | 81.82 | % |
| Y Cyngor | 15 | / | 16 | 93.75 | % |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr | 3 | / | 3 | 100.00 | % |
| **CYFFREDINOL** | **27** | **/** | **30** | 90.00 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Panel Perfformiad Gwella a Chyllid | 13 | / | 15 | 86.67 | % |
| Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 2 | / | 3 | 66.67 | % |
| Panel Ymchwiliad Trechu Tlodi | 5 | / | 12 | 41.67 | % |
| Gwethgor Cynllunio | 3 | / | 3 | 100.00 | % |
| **CYFFREDINOL** | **23** | **/** | **33** | 69.70 | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Roeddwn hefyd yn aelod o nifer o baneli a gweithgorau ymchwilio craffu, fel a amlinellwyd uchod yn Adran 2. Bûm hefyd yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

**Llyfrgell** - Gweithio gyda Chyfeillion Llyfrgell Pennard i barhau i ymgyrchu er mwyn cadw llyfrgell ym Mhennard.

**CDLl -** Un o'r pryderon sylweddol a pharhaus yr wyf yn ymdrin ag ef yw'r Cynllun Datblygu Lleol a'i effeithiau posib ar ein cymuned.

**Llywodraethwr Ysgol** - Cymerais ran weithgar yn Ysgol Gynradd Pennard ac Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt fel llywodraethwr ysgol.

**Croesfannau i gerddwyr –** Trefnais groesfannau yn Kittle ac ym Mhennard er mwyn sicrhau y gall pawb groesi'r ffordd yn ddiogel, yn enwedig plant sy'n cerdded i Ysgol Gynradd Pennard, Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt ac Ysgol Uwchradd Llandeilo Ferwallt.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Archwilydd profiadol yn y sector cyhoeddus, gan arbenigo mewn TG a systemau gwybodaeth.
Ymgymerais â'r hyfforddiant canlynol -

11/05/2017 - Côd Ymddygiad
07/07/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu
14/06/2016 - Hyfforddiant y Pwyllgor Archwilio - y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau

**Hyfforddiant Llywodraethwyr Ysgol:**
02/02/17 - Rheoli Absenoldeb
26/01/17 - Diswyddiadau

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Lluniais gylchlythyrau anwleidyddol rheolaidd i'r holl breswylwyr a oedd yn cynnwys pynciau sy'n berthnasol i Ward Pennard a chredaf y byddent o ddiddordeb. Rwyf bob amser wedi pleidleisio'n unol â'm cydwybod a'r hyn rwy'n credu sydd orau i'm hetholwyr. Cyngor Cymuned Pennard - Rwyf wedi mynd i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y cyngor cymuned a chyflwynais faterion a gododd yn y fforwm. Fel aelod o Gyngor Cymuned, cymerais rôl arweiniol mewn sawl gweithgaredd cyngor, megis y Neuadd Gymunedol, a chynhaliais y Farchnad Cynnyrch a Chrefftau fisol ar ran y cyngor.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 (2016-2017)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | |